

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel

Dyddiad:

Dydd Mercher, 17 Mehefin 2015

Amser:

09.00

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Llinos Madeley

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

Seneddlechyd@Cynulliad.Cymru

Agenda

Yn ei gyfarfod ar 11 Mehefin 2015, penderfynodd y Pwyllgor, o dan Reol Sefydlog 17.42(vi), i wahardd y cyhoedd ar gyfer eitemau 1 a 2 o gyfarfod 17 Mehefin 2015

1 Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): trafod yr adroddiad drafft (09.00 – 09.45) (Tudalennau 1 – 148)

2 Sesiwn graffu gyffredinol a sesiwn graffu ariannol gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd: trafod y dull gweithredu (09.45 – 10.00) (Tudalen 149)

3 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (10.00)

4 Sesiwn graffu gyffredinol a sesiwn graffu ariannol gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd (10.00 – 11.00) (Tudalennau 150 – 185)

Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Vaughan Gething AC, y Dirprwy Weinidog Iechyd

Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru

Ruth Hussey, Prif Swyddog Meddygol

Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio

Martin Sollis, Cyfarwyddwr Cyllid

5 P-04-625 Cefnogaeth i'r Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru): cynnig i gau'r ddeiseb (11.00 – 11.05) (Tudalennau 186 – 187)

6 Papurau i'w nodi (11.05)

Cofnodion cyfarfodydd y 21 Mai a'r 3 Mehefin (Tudalennau 188 – 193)

Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): gwybodaeth ychwanegol (Tudalennau 194 – 214)

Gwybodaeth ychwanegol gan y Rhwydwaith Maethu

Gwybodaeth ychwanegol gan y Comisiynydd Pobl Hŷn

Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – 3 Mehefin 2015

Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – 10 Mehefin 2015

Gwybodaeth ychwanegol gan Blant yng Nghymru

Gwybodaeth ychwanegol gan NSPCC

Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid – 11 Mehefin 2015

7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod ar 25 Mehefin 2015 (11.05)

8 Sesiwn graffu gyffredinol a sesiwn graffu ariannol gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd: trafod y dystiolaeth (11.05 – 11.20)

**9 Bil lechyd y Cyhoedd (Cymru): trafod y dull gweithredu ar gyfer gwaith
craffu Cyfnod 1 (11.20 – 11.55) (Tudalennau 215 – 250)**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**SESIWN GRAFFU GYDA'R PWYLLGOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL –
17 MEHEFIN 2015**

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU: Y PWYLLGOR IECHYD A GOFAL
CYMDEITHASOL**

Dyddiad: 17 Mehefin 2015

Lleoliad: Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Diben

1. Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y meysydd o ddiddordeb a bennwyd gan y Pwyllgor yn ei lythyr ar 5 Mai.

**ALLDRO ARIANNOL DROS DRO Y BYRDDAU IECHYD LLEOL A'R
YMDDIRIEDOLAETHAU AR DDIWEDD BLWYDDYN 2014-15**

2. Disgwylir i gyfrifon diwedd blwyddyn archwiliedig y byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG gael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru erbyn 14 Mehefin. Mae'r tabl isod yn nodi'r sefyllfa dros dro ar ddiwedd y flwyddyn a nodwyd gan bob un o'r byrddau iechyd lleol a'r ymddiriedolaethau yn eu cyfrifon drafft ar gyfer 2014-15 cyn iddynt gael eu harchwilio.

Sefydliad GIG	Alldro Diwedd Blwyddyn Dros Dro Gwarged/(Diffyg) £m
Bwrdd iechyd lleol	
Abertawe Bro Morgannwg	0.1
Aneurin Bevan	0.5
Betsi Cadwaladr	(26.6)
Caerdydd a'r Fro	(21.4)
Cwm Taf	0.0
Hywel Dda	(7.5)
Powys	0.0
Ymddiriedolaeth	
Iechyd Cyhoeddus Cymru	0.0
Felindre	0.0
Ambiwlans Cymru	0.1
Cyfanswm alldro dros dro GIG Cymru	(54.8)

3. Fel y soniais yn y sesiwn graffu ar 19 Mawrth, roeddwn yn rhag-weld na fyddai tri bwrdd iechyd, sef Betsi Cadwaladr, Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, yn gallu cadw o fewn eu dyraniad yn 2014-15. Mae'r cyfrifon drafft yn cadarnhau hynny. Rwy'n siomedig â'r alldro dros dro ar gyfer y tri sefydliad hyn, yn enwedig gan eu bod wedi derbyn eu cyfran o'r £200m ychwanegol y dywedodd Sefydliad Nuffield ei fod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau canlyniad boddhaol yn 2014-15

4. Yn ystod y flwyddyn, eglurais wrth bob un o gyrff y GIG, yn sgil y dyraniad ychwanegol, fod angen iddynt sicrhau eu bod mewn sefyllfa gytbwys heb beryglu ansawdd na diogelwch y cleifion. Mae cyllideb iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gyffredinol Llywodraeth Cymru wedi talu am y diffygion cyfun yn y tri bwrdd iechyd a nodir uchod.
5. Felly, yn gyffredinol, disgwylir i'r gyllideb iechyd a gwasanaethau cymdeithasol fantoli yn 2014-15 er gwaethaf gorwariant y GIG. Byddaf yn gwneud cyhoeddiad ffurfiol ynghylch y mater hwn maes o law pan fydd y gwaith o archwilio'r cyfrifon wedi mynd rhagddo ymhellach.

ADNODDAU YCHWANEGOL AR GYFER PWYSAU'R GAEAF 2014-15

6. Ar 15 Ionawr, bu i'r Gweinidog Cyllid ddyrannu £40m o arian ychwanegol i'r GIG yn 2014-15 i gefnogi pwysau'r gaeaf. Gwnaed y buddsoddiad ychwanegol hwn, sy'n dod o gronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru, yn sgil y cyhoeddiad fod £700m o arian ychwanegol yn cael ei ddyrannu i'r GIG yn Lloegr heb i unrhyw gyllid canlyniadol gael ei ddarparu i Gymru.
7. Yn sgil dyrannu £8m i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, dywedais yn y sesiwn graffu ar 19 Mawrth y byddwn yn defnyddio'r £32m a oedd yn weddill fel a ganlyn:
 - i adennill rhywfaint o'r tir a gollwyd o ran perfformiad gofal wedi'i gynllunio gan fod pwysau'r gaeaf wedi effeithio'n andwyol arno;
 - i dalu'r costau ychwanegol oherwydd pwysau'r gaeaf ar gyfer y byrddau iechyd hynny a oedd yn gweithredu'n unol â'u cynlluniau cymeradwy;
 - i gadw rhywfaint o arian yn ôl fel cronfa wrth gefn ganolog i helpu i dalu'r diffygion sylweddol a amlinellwyd yn gynharach.
8. I ategu hyn, bu fy swyddogion yn trafod ac yn monitro'n barhaus sefyllfa'r tri chorff a oedd wedi rhoi gwybod bod ganddynt ddiffygion, a hynny i sicrhau nad oedd rhaid i'r gyrff hyn wneud penderfyniadau andwyol ynghylch ansawdd na pherfformiad er mwyn mantoli'u cyfrifon.

Cafodd yr arian ei rannu fel y nodir yn y tabl isod.

Disgrifiad	Swm £m
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru	8.0
Perfformiad gofal wedi'i gynllunio	6.8
Pwysau gaeaf y Byrddau Iechyd	6.8
Cyfanswm a ddyrannwyd i gyrff y GIG	21.6
Cyllid a gadwyd yn ôl fel cronfa wrth gefn ganolog	18.4
Cyfanswm	40.0

9. Yn y tabl isod, nodir cyfanswm y dyraniadau ychwanegol a wnaed i'r byrddau iechyd yn ystod deufis olaf y flwyddyn ariannol o gronfeydd canolog yr adran

iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n cynnwys addasiadau i'r terfynau adnoddau ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol ond cyn cwblhau'r cyfrifon blynyddol.

Disgrifiad	Swm £m
Cyllid pwysau'r gaeaf (fel y nodwyd uchod)	21.7
Cyllid dyfarniad cyflog 2014-15	18.9
Gofal nyrsio a ariennir	2.2
Cyfran derfynol y cyllid ar gyfer amseroedd aros gwasanaethau diagnostig	2.3
Gwobrau rhagoriaeth glinigol (Chwarter 3 a 4)	2.6
Dyraniadau ychwanegol ar gyfer fferyllfeydd	1.9
Cyllid camddefnyddio sylweddau (dyraniadau terfynol y Byrddau Iechyd Lleol)	2.9
Dyraniadau rheolaidd eraill	0.6
Addasiadau technegol (diffygion a dibrisiad)	6.0
Cyfanswm dyraniadau mis Chwefror a mis Mawrth	59.1

BUDDSODDI MEWN IECHYD ATALIOL

10. Mae'r gwaith o bennu'r adnoddau sy'n gysylltiedig â gwariant ataliol yn gymhleth, a bydd y casgliadau'n amrywio gan ddibynnu ar y diffiniadau a'r meini prawf a ddefnyddir. Yn fras, gellir rhannu'r gwaith atal yn dair agwedd:
- i. Nod **mesurau atal sylfaenol** yw atal clefydau cyn iddynt gychwyn. Mae'r mesurau sy'n helpu pobl i fod yn iach ac i gynnal eu lles, fel tai da, cyrhaeddiad addysgol, gweithleoedd diogel, gostwng troseddau, ac ati, i gyd yn rhan o'r gwaith atal sylfaenol. Mae rhan helaeth o'r gwaith atal sylfaenol yn ymwneud â darparu addysg a newid amgylcheddol i helpu pobl i helpu'u hunain. Fodd bynnag, mae rhaglenni imiwneiddio hefyd yn enghraifft o fesur atal sylfaenol, un sy'n galw am ymyrraeth gofal iechyd.
 - ii. Nod **mesurau atal eilaidd** yw pennu problemau iechyd yn gynnar ac ar adeg pan gellir eu trin, gan arwain at ddarparu'r driniaeth angenrheidiol. Mae rhyw fath o ymyrraeth gofal iechyd ynghlwm wrth y rhan fwyaf o'r mesurau atal eilaidd, fel profion sgrinio.
 - iii. Mae **mesurau atal trydyddol** yn canolbwyntio ar bobl a chanddynt gyflwr iechyd hirdymor eisoes, fel diabetes. Gallant gael hyd i gymhlethdodau y gellir eu rhagweld a'u rheoli mor effeithiol â phosibl. Mae sgrinio retinopatheg diabetig yn enghraifft o fesur o'r fath. Mae cryn dipyn o'r gwaith atal trydyddol yn digwydd ym maes gofal sylfaenol, a hynny fel rhan o'r gwaith o ofalu am bobl â phroblemau iechyd cronig.
11. Rhaid bod yn ofalus wrth ystyried goblygiadau gwariant ataliol. O bryd i'w gilydd, mae mesurau atal wedi cael eu hybu fel mesurau sy'n gwella iechyd y cyhoedd ac yn arbed arian ar yr un pryd, ond nid yw'n debygol bod perthynas linol o'r fath rhyngddynt. O atal niwed y gellir ei atal, mae'n rhyddhau arian at ddibenion iechyd a gofal cymdeithasol eraill. Felly, mae angen nodi'r gwahaniaeth pwysig

rhwng yr arbedion posibl mewn maes clefyd penodol a lleihau cyllideb gyffredinol y GIG a gofal cymdeithasol. Mae'r arbedion yn bwysig ac mae'n werth mynd ar drywydd yr arbedion hynny hyd yn oed os yw eu heffaith ar y gyllideb gyffredinol yn fwy cymhleth.

Gwaith atal sylfaenol

12. Fel y nodir yn y diffiniadau uchod, mae amryw o weithgareddau atal sylfaenol ar waith ac maent yn cael eu hariannu o gyllidebau ar draws Llywodraeth Cymru. Hyd yn oed o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, caiff amryw o weithgareddau atal sylfaenol eu hariannu, ond mae'n anodd eu dadgyfuno oddi wrth y gweithgareddau ehangach. Er enghraifft, bydd gweithwyr gofal proffesiynol sylfaenol a chymunedol yn treulio cryn dipyn o amser yn darparu cyngor a chymorth hybu iechyd (e.e. ymwelwyr iechyd yn cefnogi mamau a thadau newydd a'u babanod neu feddygon teulu'n ystyried holl anghenion ac amgylchiadau'r cleifion sy'n dod i'w gweld). Nod polisïau'r Llywodraeth hon, fel cynllun gwasanaethau gofal sylfaenol Cymru, yw sicrhau bod y dulliau hyn o gefnogi iechyd y boblogaeth yn ennill eu plwyf yn GIG Cymru, ond mae'r gwaith o bennu'r gwariant arnynt ar wahân yn gymhleth iawn.
13. Mae Llywodraeth Cymru'n ariannu Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddarparu ystod o fesurau atal sylfaenol i atal afiechyd, ochr yn ochr â nifer o swyddogaethau eraill sy'n gysylltiedig ag iechyd y cyhoedd. Dyrannwyd £81.7m o gyllid craidd i Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2015/16. Nid yw'r dyraniad wedi'i glustnodi ar gyfer unrhyw weithgaredd penodol, a hynny er mwyn rhoi cymaint o hyblygrwydd â phosibl i Iechyd Cyhoeddus Cymru reoli'i adnoddau i gyflawni ystod eang o flaenoriaethau ac ymrwymadau. Mae'n cwmpasu nifer o raglenni fel y gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu a rhwydwaith Cymru o gynlluniau ysgolion iach.
14. Caiff £17.6m ei ddyrannu yn 2015/16 ar gyfer rhaglenni imiwneiddio – gan gynnwys ehangu rhaglen y fflw i gynnwys am y tro cyntaf blant mewn dosbarthiadau derbyn a phlant ym mlynnyddoedd 1 a 2 mewn ysgolion cynradd; cyflwyno rhaglen Meningitis B newydd yn yr hydref ar gyfer babanod; a pharhau â'r rhaglen frechu yn erbyn yr eryr i rai 70 oed, ynghyd â'r rhaglen dal i fyny i rai 78 oed. Bydd y rhaglenni hyn yn adeiladu ar y drefn imiwneiddio bresennol i amddiffyn pobl rhag clefydau y gellir eu hatal.
15. Mae ymchwil ddiweddar i'r brechlyn rotafeirws ar gyfer babanod yn dangos effaith rhaglenni imiwneiddio. Ers ei gyflwyno yn 2013, cafwyd gostyngiad o 88% yn nifer yr achosion a gadarnhawyd ymhlith plant iau na blwydd oed a gostyngiad o 19% yn nifer yr ymgynghoriadau meddygon teulu ynghylch yr haint yn yr un grŵp oedran. Ar wahân i'r manteision amlwg o ran iechyd yr unigolion, mae rhaglenni imiwneiddio'n cyfrannu at wella iechyd cyffredinol y boblogaeth ac yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau'r GIG.
16. Mae £8.5m wedi'i neilltuo i gefnogi'r Gyllideb Bwyd Lles, gan gynnwys y cynllun *Cychwyn Iach a'r Cynllun Llaeth* ar gyfer lleoliadau meithrin. Mae'r rhain yn gynlluniau statudol sydd ar waith ar draws y DU i ddarparu rhwyd ddiogelwch

faethol i fenywod beichiog sy'n agored i niwed, mamau newydd a phlant mewn teuluoedd sy'n cael budd-daliadau.

17. Yr Adran Iechyd sy'n gweithredu'r cynllun *Cychwyn Iach* ar ran Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r cynllun yn darparu talebau i gael gostyngiadau ar bris ffrwythau, llysiau, llaeth a fformiwla babanod a chwponau i gael fitaminau am ddim i fenywod beichiog a phlant mewn teuluoedd sy'n cael budd-daliadau (mae pob menyw feichiog o dan 18 oed hefyd yn gymwys). Mae tua 27,000 wedi cofrestru ar gyfer y cynllun, sef tua thri chwarter y rheini sy'n gymwys. Gwariant gwirioneddol 2014/15 yw £4.41m.
18. O dan y *Cynllun Llaeth* mae gan bob plentyn o dan bump oed sy'n mynd i ganolfannau gofal dydd cymeradwy am ddwyawr neu ragor hawl i 1/3 peint o laeth (gan gynnwys babanod o dan 12 mis sy'n gallu cael llaeth sych i fabanod). Gwariant gwirioneddol 2014/15 yw £3.44m.
19. Mae rhaglen gwaith ac iechyd Llywodraeth Cymru, *Cymru Iach ar Waith*, yn sicrhau bod modd i gyflogwyr gael cyngor a chymorth i ddatblygu polisïau ac arferion i wella iechyd a lles eu staff, i leihau effaith afiechyd ar y gweithle, ac i annog ymyriadau cynnar i adsefydlu gweithwyr. Mae dros 2,400 o sefydliadau wedi cael cymorth a chyngor drwy'r rhaglen *Cymru Iach ar Waith*, gan gefnogi bron i 31% o'r boblogaeth sy'n gweithio yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn cael ei hariannu ar y cyd ag Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, gyda chyfraniad o £0.280m o'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
20. Mae'r ymgyrch marchnata cymdeithasol *Newid am Oes* yn canolbwyntio ar ordewdra, bwyta'n iach, gweithgarwch corfforol ac alcohol, ac yn mynd i'r afael â nhw. Mae dros 76,000 o bobl wedi cofrestru i gael gwybodaeth. Mae ein hymgyrch marchnata cymdeithasol wedi datblygu'n frand y mae gweithwyr proffesiynol a theuluoedd sydd am wella'u ffordd o fyw yn ei adnabod; ac mae hefyd yn helpu'r rheini sy'n gweithio ym maes gwella iechyd poblogaethau.
21. Yn gynharach eleni, lanswyd ymgyrch a oedd yn canolbwyntio ar wneud "dewis llai melys". Roedd yn targedu teuluoedd â phlant rhwng pedair ac 11 oed, gan awgrymu ffyrdd syml o ddewis bwydydd llai melys i leihau swm y siwgr yn y ddeiet. Bu hysbysebion a gwaith cysylltiadau cyhoeddus yr ymgyrch yng Nghymru'n canolbwyntio ar yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, gan fod lefelau'r plant sydd dros bwysau ac sy'n ordew yn uwch mewn ardaloedd difreintiedig. Yn ystod yr ymgyrch bedair wythnos, ymunodd dros 6,500 o deuluoedd newydd â'r rhaglen *Newid am Oes*. Hyd yma, mae dros 72,000 o bobl wedi ymuno â'r rhaglen ac mae llawer mwy wedi cael cyngor drwy'r wefan, Facebook a Twitter. Cytunwyd ar gyllid o £0.3m ar gyfer 2015-16 i fwrw ymlaen â'r rhaglen *Newid am Oes*.
22. Dyrannwyd £1.0m i gefnogi'r buddsoddiad mewn data o ansawdd uchel ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol, fel Arolwg Iechyd Cymru ac Arolwg Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oed Ysgol, a hynny i gefnogi penderfyniadau buddsoddi ac i dracio effaith polisïau.

23. Dyrannwyd £0.07m ar gyfer *Ychwanegu at Fywyd*, sef archwiliad iechyd a lles i rai 50 oed a throsodd yng Nghymru a gyflwynwyd ledled y wlad ym mis Ebrill 2014. Mae'r £0.07m yn ariannu estyniad pedwar mis (Ebrill – Gorffennaf 2015). Yn ystod y cyfnod hwn, rydym yn llunio ystod o gynigion cadarnach i ddatblygu *Ychwanegu at Fywyd* mewn ffordd gynaliadwy, gan gydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a phartneriaid posibl eraill.
24. Dyrannwyd £0.1m i gefnogi'r camau i ddarparu ac i gyflenwi'r Dull Atal Cenhedlu Gwrthdroadwy Hirdymor o fewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau Cymru. Nod yr ymyrraeth yw lleihau nifer yr achosion o feichiogrwydd anfwriadol drwy ddefnyddio'r Dull Atal Cenhedlu Gwrthdroadwy Hirdymor fel modd o atal menywod sy'n ddibynnol ar gyffuriau rhag beichiogi hyd nes eu bod yn gwella i'r fath raddau fel bod modd iddynt fod yn rhieni effeithiol. Mae rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau mewn perygl mawr o feichiogi'n anfwriadol. Mae mwy o bobl sy'n camddefnyddio sylweddau'n methu â defnyddio dulliau atal cenhedlu, o'u cymharu â'r rheini nad ydynt yn defnyddio sylweddau, ac mae mwy ohonynt yn dweud iddynt feichiogi'n anfwriadol. Cydnabyddir bod camddefnyddio sylweddau gan rieni'n ffactor pwysig mewn achosion gofal sy'n arwain at fynd â'r plant oddi ar eu rhieni. Mae'r gwariant bob blwyddyn yn gyfwerth â'r gost o ofalu am un plentyn mewn cartref awdurdod lleol am chwe mis.
25. Mae'r sector gwirfoddol yn chwarae rôl bwysig o ran y gwaith atal sylfaenol, a hynny oherwydd y meysydd y mae'n arbenigo ynddynt, ei statws fel sector y mae gwahanol grwpiau o gleientiaid yn ymddiried ynddo, a'i weithgareddau allgymorth penodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i bartneriaeth a/neu drefniadau ariannu gyda'r sector gwirfoddol i gefnogi mesurau atal sylfaenol. Isod, ceir rhai enghreifftiau o'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:
- dyfarnwyd £0.2m i Alcohol Concern Cymru i godi ymwybyddiaeth o faterion camddefnyddio alcohol; i fonitro labeli a gweithgareddau hyrwyddo amheus o ran alcohol, ac i adrodd arnynt; i arwain ymgyrchoedd rhannu gwybodaeth; i gyhoeddi canllawiau arferion da; ac i gyflawni ymchwil. Ymhlith y prif gamau a gymerwyd gan Alcohol Concern Cymru yn ystod blwyddyn gyntaf y cyllid mae gwaith i ddiweddarau'r wefan *Yfed Doeth Cymru*; lansio her *Ionawr Sych 2015* (gyda thros 900 o bobl yn cofrestru'n ffurfiol yng Nghymru); prosiect Cymunedau gyda'i Gilydd yn Sir Benfro sy'n dangos sut y gellir defnyddio technegau datblygu cymunedol a chydgyhyrchu i fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol; gwaith ymchwil a gwaith polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth; rhoi grantiau i Glybiau Bechgyn a Merched Cymru, Cymdeithas Tai Taf, Ysgol Uwchradd Willows a Phrosiect 2020 drwy brosiect *Y Ddiad sy'n Siarad* i annog pobl ifanc i drin a thrafod materion sy'n ymwneud ag alcohol.
 - Dyrannwyd £0.2m i'r rhaglen *Heneiddio'n Iach* sy'n cael ei rhedeg gan Age Cymru ar ran Lywodraeth Cymru. Nod y rhaglen yw mynd i'r afael ag anghenion pobl hŷn ac mae'n eu cynorthwyo i fwynhau iechyd a lles corfforol, meddyliol ac emosiynol da. Cafodd mesurau perfformiad Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau'u datblygu i fesur canlyniadau'r

rhaglen. Ar hyn o bryd mae 95% o'r bobl hŷn sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau Cerdded Nordig a 100% o'r bobl hŷn sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant LIFT yn dweud eu bod yn cyflawni mwy o weithgarwch corfforol. Mae 94% o'r bobl hŷn sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau Cerdded Nordig yn dweud bod eu hiechyd wedi elwa o wneud hynny.

- Mae £0.2m yn cefnogi'r rhaglen *Dewch i Gerdded Cymru* a ddarperir gan Gymdeithas y Cerddwyr. Mae'n cydgysylltu ac yn datblygu prosiectau cerdded sy'n gysylltiedig ag iechyd yng Nghymru, gan dargedu'r oedolion lleiaf egnïol. Mae'r prosiect yn cydweddu ag amcanion Llywodraeth Cymru o gynyddu'r lefelau gweithgarwch corfforol yng Nghymru ochr yn ochr â gwella mynediad i gefn gwlad ac arfordir Cymru. Yn 2014, roedd 14,500 o gerddwyr cofrestredig, ac roedd y cysylltiadau ag ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn tyfu.
- Dyranwyd £0.08m i ariannu'r chwe phrosiect cyfredol o dan Gynllun Grantiau Sector Gwirfoddol Her Iechyd Cymru. Nod y cynllun yw meithrin capasiti a gallu sefydliadau cenedlaethol yn y sector gwirfoddol yng Nghymru i gydweithio â Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill yn y sector gwirfoddol i hybu iechyd a lles cynaliadwy drwy gefnogi gweithgareddau craidd a gweithgareddau prosiect. Y chwe phrosiect sy'n cael eu hariannu ar hyn o bryd yw:
 - MIND Cymru – Iechyd Meddwl a Chadernid Amenedigol – Cymorth Cynnar;
 - Ymddiriedolaeth y Tywysog – Y Prosiect 'Active Youth';
 - Clybiau Plant Cymru – Y Prosiect Chwarae, Dysgu a Thyfu'n Iach;
 - Sustrans Cymru – Y Prosiect Prifysgolion Iach;
 - Sustrans Cymru – Prosiect Cynghrair yr Ysbytai Iach;
 - Breast Cancer Care Cymru – Y Prosiect 'Best Foot Forward'.
- Dyfarnwyd £0.1m i ASH Cymru i gefnogi'r camau i roi rhannau o gynllun gweithredu Cymru ar reoli tybaco ar waith. Ei nod yw gostwng canran yr oedolion sy'n smygu ar draws Cymru i 16% erbyn 2020. Ar hyn o bryd, mae 20% yn smygu. Ymhlith y prif gamau a gymerwyd gan ASH Cymru yn ystod blwyddyn gyntaf y cyllid mae sefydlu gweithgor tybaco anghyfreithlon i wneud argymhellion ar y mater; cefnogi saith grŵp gweithredu lleol ar dybaco ar draws Cymru a chynorthwyo Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd ar draws Cymru i fynd i'r afael â'r prif feysydd blaenoriaeth (tybaco anghyfreithlon, pobl ifanc, a mannau di-fwg); arwain is-bwyllgor ymchwil sy'n canolbwyntio ar ymchwil i smygu a rheoli tybaco ac sydd wedi comisiynu astudiaethau fel yr arolwg blynyddol o e-sigaréts ac astudiaeth ddichonoldeb o brosiect 'The Filter'; a chydweithio â'r awdurdodau lleol i gyflwyno meysydd chwarae di-fwg ledled Cymru.
- Mae diogelwch bwyd yn faes arall sy'n rhan o'r gwaith atal sylfaenol. Mae'r Awdurdodau Lleol yn ariannu nifer o fesurau diogelwch bwyd. Darparwyd £3,242,000 o'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ariannu'r Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru yn 2014/15.

Gwaith atal eilaidd a thrydyddol

26. Mae cyfran sylweddol o'r gwaith atal eilaidd a thrydyddol yn cael ei chyflawni ym maes gofal sylfaenol a chymunedol, ond nid yw'n rhwydd pennu'r gwariant ar elfennau ataliol y gwaith. Yn 2014/15, roedd y gwariant ar Wasanaethau Gofal Iechyd Sylfaenol (ac eithrio cyffuriau a chyfarpar ar bresgripsiwn) yn £853m.
27. Mae sgrinio'n wasanaeth ataliol pwysig ac mae'n haws pennu'r costau ar ei gyfer. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n darparu gwasanaethau sgrinio poblogaethau cenedlaethol yn uniongyrchol i bobl Cymru; yn eu plith mae rhaglenni sgrinio sydd wedi hen ennill eu plwyf fel Sgrinio Sbotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru, Sgrinio Clyw Babanod Cymru, Bron Brawf Cymru a Sgrinio Serfigol Cymru, ynghyd â rhaglenni mwy newydd fel Sgrinio Coluddion Cymru a'r rhaglen a gyflwynwyd yn ddiweddar, Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru. Fel y nodwyd yn gynharach, nid yw'r arian craidd a ddyrennir i Iechyd Cyhoeddus Cymru gan Lywodraeth Cymru yn cael ei glustnodi ar gyfer unrhyw weithgaredd penodol, ond rydym yn gwybod bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi dyrannu cyllideb o £34.37m ar gyfer rhaglenni sgrinio yn 2014/15. Mae'r byrddau Iechyd hefyd yn gyfrifol am roi'r rhaglen Sgrinio Cyn Geni ar waith o dan oruchwyliaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru.
28. Mae rhai o'r ystadegau isod yn tanlinellu effaith rhaglenni o'r fath o ran cael hyd i broblemau Iechyd yn gynnar ac ar adeg pan gellir eu trin:
- Yn 2013/14, cafodd dros 104,000 o fenywod brawf sgrinio ar gyfer canser y fron a bu i 72.1% fanteisio ar y prawf. Gwnaed diagnosis o bron i 1,100 o ganserau ymhlith menywod 50-70 oed a gafodd eu gwahodd i gael prawf fel mater o drefn.
 - Cafodd dros 210,000 o fenywod brawf sgrinio ar gyfer canser serfigol yn 2013/14. Roedd 78.6% o fenywod 25-64 oed wedi cael prawf yn ystod cyfnod o bum mlynedd, sy'n golygu bod wyth o bob deg menyw wedi mynd i'w hapwyntiad sgrinio. Roedd 8,800 o fenywod wedi cael colposgopi pellach ac roedd 2,400 wedi cael diagnosis Neoplasia Mewnepithelaidd Serfigol cymedrol neu uchel (celloedd annormal neu gyn-ganseraidd) neu waeth.
 - Cafodd dros 161,500 o becynnau prawf canser y coluddyn eu dilysu yn 2013/14. Bu i 52.6% fanteisio arnynt, sy'n well na'r flwyddyn flaenorol. Cafodd oddeutu 2,500 o bobl archwiliad colonosgopi a gwnaed diagnosis o tua 250 o ganserau o ganlyniad i'r prawf sgrinio.
 - Cafodd dros 15,000 o ddynion 65 oed brawf sgrinio ar gyfer ymlediadau aortig abdomenol yn 2013/14 a chafwyd hyd i bron i 200 o ymlediadau.
 - Cafodd dros 33,500 o fabanod brawf sgrinio ar gyfer colli clyw yn 2013/14, sef 99.4% o'r genedigaethau cymwys. Cafodd bron i 450 o fabanod eu hatgyfeirio i gael archwiliad pellach. Drwy'r rhaglen, cafodd tua 30 o fabanod ddiagnosis bod nam ar eu clyw.

- Yn 2013/14, cafodd dros 17,000 o fenywod beichiog brawf sgrinio ar gyfer syndrom Down yn ystod eu beichiogrwydd a nodwyd bod risg bosibl i fabanod dros 560 ohonynt. Cafodd dros 31,600 o fenywod brawf sgrinio ar gyfer Hepatitis B, siffilis a HIV a'r tueddiad i gael rwbela. Cafodd dros 6,000 o fenywod brawf sgrinio i bennu a oeddent yn cario genynnau clefyd y crymangelloedd neu thalasaemia.
 - O blith y 115,344 o ganlyniadau a gafwyd o'r profion sgrinio retinopat heg diabetes yn ystod 2013/14, canfuwyd bod gan 29.8% ryw gymaint o retinopat heg diabetig. Mewn 3% o'r achosion, cafwyd hyd i retinopat heg a allai fygwth golwg yr unigolion.
29. Mae rhaglenni a pholisïau cenedlaethol a lleol yn perthyn i'r categori atal hwn, yn ogystal â chynlluniau sy'n cael eu hariannu'n genedlaethol. Er enghraifft, ar lefel genedlaethol, mae'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff yn rhoi cyfle i ystod eang o gleifion gyflawni gweithgarwch corfforol yn sgil atgyfeiriad gan eu meddyg teulu. Mae'r ffigurau cadw ar gyfer 2013-2014 yn dangos na fyddai 91% wedi dechrau cyflawni gweithgarwch corfforol oni bai am y cynllun hwn; roedd 83% wedi cwblhau'r rhaglen ac roeddent yn dal i wneud ymarfer corff ymhen 16 wythnos; ac roedd 63% yn dal i wneud ymarfer corff yn annibynnol ymhen 52 wythnos. Dangosodd asesiad o'r cynllun yn 2012/13 fod yr holl gleifion a gymerodd ran yn y cynllun yn cyflawni mwy o weithgarwch corfforol na'r rheini yn y grŵp rheolydd, ac roedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol ar gyfer y cleifion hynny a gafodd eu hatgyfeirio oherwydd ffactorau risg clefyd coronaidd y galon. Cafwyd effeithiau cadarnhaol ar iselder a gorbryder, yn enwedig ymhlith y rheini a gafodd eu hatgyfeirio am resymau iechyd meddwl.
30. Mae'r polisi 'Optimising Outcomes' a fabwysiadwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn enghraifft o fenter leol sy'n ceisio helpu cleifion i wella'u siawns o gael llawdriniaeth lwyddiannus. Mae tystiolaeth yn dangos bod smygwyr yn fwy tebygol o ddioddef cymhlethdodau yn ystod llawdriniaeth, bod eu risg o gael haint yn uwch a'u bod yn treulio mwy o amser yn yr ysbyty. Gall pwysau hefyd gynyddu'r lefelau risg mewn amryw o lawdriniaethau dewisol yn ddramatig. Mae meddygon teulu'n anfon cleifion sy'n smygu neu gleifion â mynegai màs y corff uchel ar gwrs smygu neu golli pwysau ac mae disgwyl i'r cleifion gwblhau'r cwrs cyn eu hapwyntiadau fel cleifion allanol.
31. Mae camddefnyddio sylweddau'n faes arall lle y gellir pennu gwariant ar fesurau atal eilaidd. *Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed* yw strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol, cyffuriau a sylweddau eraill. Mae Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2013-15 a bron i £50m o gyllid refeniw a chyfalaf yn ategu'r strategaeth. Mae cynllun tair blynedd newydd wrthi'n cael ei baratoi ar gyfer 2016-18 a bydd yn nodi'r camau penodol y byddwn yn eu cymryd yn ystod y cyfnod hwn.
32. Mae Llywodraeth Cymru'n buddsoddi £32m o'n Cronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau, gan gynnwys £22m sy'n cael ei roi i saith Bwrdd Cynllunio Ardal sy'n comisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar

gyfer y rhanbarth. Mae £5.072m o gyllid cyfalaf ar gael i'r Byrddau Cynllunio Ardal hefyd.

33. Yn ogystal, caiff £17.1m arall ei glustnodi ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau o fewn dyraniad dewisol y byrddau iechedd.

Cyllideb	2015-16 £m
Dyraniadau refeniw'r Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau i'r Byrddau Cynllunio Ardal	22.663
Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan	2.200
Ymgyrch Tarian	0.500
Gwariant sy'n gysylltiedig ag Ewrop, gan gynnwys y gwasanaeth di-waith arfaethedig o dan y gronfa ESF	0.600
Mentrau polisi ar gyffuriau ac alcohol	1.012
Dyraniadau cyfalaf y Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau i'r Byrddau Cynllunio Ardal	5.072
Cyllid y Byrddau Iechyd Lleol sydd wedi'i glustnodi	17.134
Cyfanswm	49.181

34. Yn 2013, cafwyd 135 o farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau (cyffuriau anghyfreithlon) a 208 o farwolaethau oherwydd gwenwyno gan gyffuriau (cyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon) yng Nghymru. Nid oedd y ffigurau ar gyfer marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau wedi newid ers 2012, ond cafwyd gostyngiad o 2.8% yn y marwolaethau yn sgil gwenwyno gan gyffuriau ers 2012. Mae marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau a gwenwyno gan gyffuriau wedi parhau i ostwng ers 2010 pan gyrhaeddodd y ddau uchafbwynt o 162 (camddefnyddio cyffuriau) a 224 (gwenwyno gan gyffuriau).
35. Yn 2013, cafwyd 467 o farwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru, sef gostyngiad o 7.3% ers 2012. Mae cyfanswm y marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol wedi gostwng o 541 yn 2008, ond nid yw'r duedd wedi bod yn gyson o flwyddyn i flwyddyn dros y cyfnod hwn.
36. Mae'r data diweddaraf o 2013/14 yn dangos bod 87.2% o'r holl gleientiaid a oedd yn camddefnyddio sylweddau wedi'u hatgyfeirio i gael triniaeth cyn pen 20 diwrnod gwaith. Mae hyn wedi codi o flwyddyn i flwyddyn o 75.2% yn 2008/09.

HYNT Y GWAITH O YSTYRIED A CHYMERADWYO CYNLLUNIAU'R BYRDDAU IECHYD LLEOL AR GYFER Y CYFNOD 2016-17 I 2017-18

37. Yn unol â Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 a Fframwaith Cynllunio'r GIG (Hydref 2014), cyflwynodd pob un o sefydliadau'r GIG gynlluniau tymor canolig integredig 2015/16 erbyn 1 Ebrill 2015.

38. Mae'r cynlluniau wedi bod yn destun proses herio ac asesu gadarn i brofi i ba raddau y maent yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau gwasanaeth, y gofynion ansawdd, a'r gofynion o ran perfformiad a'r gweithlu a bennwyd yn yr amlen adnoddau a nodwyd yng nghyllideb gymeradwy 2015/16.
39. Fel Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'n ofynnol imi gymeradwyo'r cynlluniau ac ni fyddaf yn cymeradwyo unrhyw gynllun hyd nes fy mod yn fodlon ei fod yn addas at y diben.
40. Bydd y perfformiad yn erbyn y cynlluniau cymeradwy'n cael ei dracio drwy drafodaethau â'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd; drwy gyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch a Chyflawni; a thrwy'r cyfarfodydd ar y cyd â'r Timau Gweithredol.
41. Os bydd sefydliad yn gwyro'n annerbyniol oddi wrth y cynllun y cytunwyd arno, bydd mwy o drefniadau monitro a herio, cefnogi ac uwchgyfeirio yn cael eu rhoi ar waith a gall golli'r breintiau sy'n gysylltiedig â bod yn rhan o'r drefn Cynllunio Tymor Canolig.
42. Mae'r sefydliadau heb gynlluniau cymeradwy'n cydnabod yr heriau penodol y maent yn eu hwynebu ac maent wedi ymrwymo i wella'u dull o gynllunio'n barhaus ac i baratoi Cynlluniau Tymor Canolig Integredig cadarn i ymuno â chylch 2016/17. Disgwylir y bydd angen cymorth wedi'i deilwra ar yr holl sefydliadau dros y 6-12 mis nesaf i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd o ran paratoi cynlluniau sy'n ateb gofynion Fframwaith Cynllunio'r GIG.
43. Bydd diweddariad yn cael ei roi yn y cyfarfod.

Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 6.1

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd**

Dyddiad: **Dydd Iau, 21 Mai 2015**

Amser: **09.05 – 12.38**

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/3018) yn:
<http://senedd.tv/cy/3018>

Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

David Rees AC (Cadeirydd)
Alun Davies AC
Janet Finch-Saunders AC
John Griffiths AC
Elin Jones AC
Darren Millar AC
Gwyn R Price AC
Lindsay Whittle AC
Kirsty Williams AC

Tystion:

Yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru
Hywel Dafydd, Comisiynydd Plant Cymru
Samantha Clutton, Barnardo's Cymru
Cecile Gwilym, NSPCC Cymru
Catriona Williams, Prif Weithredwr, Plant yng Nghymru
Kate Chamberlain, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Nia Roberts, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Lin Slater, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Lynda Williams, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Staff y Pwyllgor:

Llinos Madeley (Clerc)
Helen Finlayson (Ail Glerc)

Catherine Hunt (Ail Glerc)
Sian Giddins (Dirprwy Glerc)
Enrico Carpanini (Cynghorydd Cyfreithiol)
Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)
Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)
Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)
Stephen Boyce (Ymchwilydd)
Amy Clifton (Ymchwilydd)

Trawsgrifiad

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod](#).

1 Y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru): trafodaeth am drefn ystyried trafodion Cyfnod 2

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn ystyried trafodion Cyfnod 2 y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru) mewn egwyddor.

2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Lynne Neagle.

3 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 13

3.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau.

3.2 Cytunodd y Comisiynydd Plant i ddarparu'r eitemau a ganlyn i'r Pwyllgor:

- canfyddiadau adolygiad y Comisiynydd o'r broses o gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth;
- ei barn ar adran 57 o'r Bil ar swyddogaethau awdurdodau lleol sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya.

4 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 14

4.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau.

4.2 Cytunodd Catriona Williams a Cecile Gwilym i roi eu barn i'r Pwyllgor ynghylch a yw'r Bil yn rhoi diffiniad digon clir o weithiwr gofal cymdeithasol.

4.3 Cytunodd Samantha Clutton a Cecile Gwilym i roi eu barn i'r Pwyllgor ar sut y gellid atgyfnerthu'r Bil o ran comisiynu gwasanethau gan awdurdodau lleol.

5 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 15

5.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau.

6 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 16

6.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau'r Aelodau.

7 Papurau i'w nodi

7.1 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru): gohebiaeth gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

7.1a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

8.1 Derbyniwyd y cynnig.

9 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): trafod y dystiolaeth

9.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

9.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at sefydliadau gofalwyr maeth i ofyn eu barn ar ymestyn y gofyniad i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ofalwyr maeth.

10 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): paratoi ar gyfer gwaith craffu

10.1 Nododd y Pwyllgor benderfyniad y Pwyllgor Busnes mewn egwyddor i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol graffu arno yng Nghyfnod 1 a Chyfnod 2 a chytunodd i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i ddweud bod ganddo bryderon sylweddol ynghylch yr amserlen arfaethedig a'r pwysau y byddai hynny'n eu rhoi ar ei lwyth gwaith.

10.2 Hefyd, cytunodd y Pwyllgor i ofyn i'r Pwyllgor Busnes ymestyn y terfyn amser ar gyfer craffu ar y Bil yng Nghyfnod 1 o ddwy wythnos er mwyn caniatau ar gyfer ymrwymadau gwaith eraill.

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd**

Dyddiad: **Dydd Mercher, 3 Mehefin 2015**

Amser: **10.00 – 11.34**

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv) yn:
<http://senedd.tv/cy/3010>

Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

David Rees AC (Cadeirydd)
Alun Davies AC
John Griffiths AC
Mike Hedges AC
Altaf Hussain AC
Elin Jones AC
Darren Millar AC
Gwyn R Price AC
Lindsay Whittle AC

Tystion:

**Mark Drakeford AC, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol**
David Pritchard, Llywodraeth Cymru
Kate Johnson, Llywodraeth Cymru
Mari Williams, Llywodraeth Cymru

Staff y Pwyllgor:

Helen Finlayson (Ail Glerc)
Catherine Hunt (Ail Glerc)
Rhys Morgan (Dirprwy Glerc)
Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)
Gareth Pembridge (Cynghorydd Cyfreithiol)
Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)

TRAWSGRIFIAD

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod](#).

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Lynne Neagle a Kirsty Williams. Dirprwyodd Mike Hedges ar ran Lynne Neagle.

2 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): sesiwn dystiolaeth 17

2.1 Bu'r Gweinidog yn ateb cwestiynau gan Aelodau.

2.2 Cytunodd y Gweinidog:

- i ddarparu nodyn ar lwybrau gwneud yn iawn neu lwybrau apêl i ddefnyddwyr gwasanaethau mewn perthynas ag asesiadau cymhwysedd;
- i ddarparu nodyn ar yr ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gontractau dim oriau, gan nodi sut y gellir mynd i'r afael â'r defnydd o gontractau dim oriau yn y sector gofal cymdeithasol drwy'r Bil; ac
- i ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru er mwyn canfod dichonoldeb cyflwyno darpariaethau priodol yn y Bil i ddiogelu unigolion sy'n dymuno chwythu'r chwiban ar arferion gwael a all roi unigolion eraill mewn perygl.

3 Papurau i'w nodi

3.1 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mai 2015.

3.1a Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mai 2015.

3.2 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): gwybodaeth ychwanegol

3.2a Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol a gafwyd gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, Age Cymru, Cynghrair Henoed Cymru, a'r Gymdeithas Brydeinig dros Fabwysiadu a Maethu. Nodwyd hefyd fod gwybodaeth ychwanegol wedi dod i law gan y Rhwydwaith Maethu a chan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei hanfon at yr Aelodau a'i chyhoeddi ar y dudalen we ar gyfer y Bil.

3.3 Ymchwiliad i'r gweithlu Meddygon Teulu yng Nghymru: gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3.3a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

5 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

Eitem 6.2



National Assembly for Wales / Cynulliad
Cenedlaethol Cymru
[Health and Social Care Committee](#) / [Y Pwyllgor
Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#)

[Regulation and Inspection of Social Care \(Wales\) Bill](#) / [Bil Rheoleiddio
ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\)](#)

Evidence from The Fostering Network – RISC AI 07 / Tystiolaeth gan Y
Rhwydwaith Maethu – RISC AI 07

David Rees AM
Chair, Health and Social Services Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

29TH May 2015

Dear David,

Re: Scrutiny of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill

Thank you for your letter, dated 22nd May 2015, as the new Director for the Fostering Network in Wales, I am pleased to be able to respond to outline the views of the Fostering Network, in relation to the questions raised of future registration of Foster Carers within Social Care Wales.

The Fostering Network has undertaken considerable research into this important question, to ensure that as the leading voice of Foster Care in the UK, we are able to contribute constructively to legislative and policy development. The registration of Foster Carers is an ongoing consideration across the UK and we welcome the focus given to this issue, as part of the scrutiny of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill.

It is our view that there is a balance to be struck in ensuring excellence, whilst not introducing unnecessary regulatory burdens. As such we would be keen to understand the balance between the regulatory focus of Social Care Wales and the improvement responsibilities within this new body.

However, in providing a response to your question The Fostering Network would welcome foster carers being registered with a national body through a national register, as we see it as being advantageous to both foster carers and to local

EVERY CHILD • EVERY CARER • EVERY DAY
POB PLENTYN • POB GOFALWR MAETH • POB DIWRNOD

1 Caspian Point, Pierhead Street, Cardiff Bay, CF10 4DQ

t [REDACTED] e [REDACTED] www.fostering.net

authorities. This would bring foster carers in line with residential staff, social workers, childminders, teachers and others.

Introducing such a national register in Wales at a time when there is likely reorganisation of local government may also be very timely and helpful to Foster Carers and the likely new local authorities. A national registration scheme would also create a mechanism which would facilitate the movement of foster carers between fostering services and it would provide a mechanism for foster carers to seek a review of a decision to deregister them.

